**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf MA VG 4223 20

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

21 Rhagfyr 2020

Annwyl Lywydd,

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan Atod. 10 para. 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol (OS) hwn yn dod i rym lai na 21 o ddiwrnodau o'r dyddiad gosod. Er gwybodaeth, mae copi o'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau hyn ynghlwm wrth y llythyr hwn.

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 ("y Prif Reoliadau"). Mae'r Prif Reoliadau yn gosod y fframwaith ar gyfer codi ffi ar bersonau nad ydynt yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig (DU) am driniaeth frys ac nad yw'n frys mewn ysbyty a ddarperir yng Nghymru.

Os bydd y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE) heb gytundeb, mae angen diwygio'r Prif Reoliadau i sicrhau bod y gyfraith yn parhau i fod yn weithredol a bod categorïau penodedig o ymwelwyr o Wladwriaethau'r UE/Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) a'r Swistir sydd â hawliau dinasyddion parhaus o dan Deitl III o Ran 2 o'r Cytundeb Ymadael, Teitl III o Ran 2 o gytundeb gwahanu Cymdeithas Masnach Rydd Ewrop (EFTA) yr AEE neu'r cytundeb ar hawliau dinasyddion y Swistir yn parhau i fod wedi'u heithrio rhag ffioedd ar gyfer gwasanaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru os ceir sefyllfa 'Dim Cytundeb' ar y diwrnod y daw'r cyfnod gweithredu i ben (31 Rhagfyr 2020). Bydd hyn yn rhoi cydraddoldeb i ddinasyddion gwladwriaeth yr AEE neu'r Swistir sy'n cael mynediad at ofal iechyd â'u cymheiriaid yng ngweddill y Deyrnas Unedig.

Cafodd Rheoliadau 2020 eu gwneud a'u gosod cyn gynted ag yr oedd yn ymarferol wedi i ddrafft terfynol yr OS ar gyfer diwygio Rheoliadau Codi Ffioedd Lloegr gael ei rannu gan Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU ddechrau mis Rhagfyr. Roedd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rheoliadau 2020 yn ddibynnol ar y rhain ac mae eu diweddarwch wedi golygu bod Rheoliadau Cymru wedi dod i rym lai na 21 o ddiwrnodau wedi iddynt gael eu gwneud er mwyn iddynt ddod i effaith erbyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu fan bellaf.

Mae peidio â glynu wrth y confensiwn 21 o ddiwrnodau yn caniatáu i'r Rheoliadau ddod i rym ar 31 Rhagfyr, diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu er mwyn sicrhau bod y Prif Reoliadau yn parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE mewn sefyllfa Dim Cytundeb. Mae peidio â glynu at y rheol 21 o ddiwrnodau yn angenrheidiol felly, a gellir ei gyfiawnhau yn yr achos hwn.

Lluniwyd Memorandwm Esboniadol ac fe'i gosodwyd, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd